

***Crist a gyfododd!
Efe a gyfododd yn wir!***



**YR HEUWR
CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 54
EBRILL 2013**

Eleni dathlwyd Gŵyl y Pasg yn gynnar iawn yn y flwyddyn, sef y Sul olaf ym mis Mawrth! Ond a wyddech chi nad dyma'r dyddiad cynharaf y gellir dathlu'r Pasg? Mae dyddiad y Pasg yn medru syrthio ar unrhyw Sul rhwng yr 22ain Mawrth a'r 25ain Ebrill.

Bu dyddio'r Pasg yn destun llosg yn hanes yr Eglwys am sawl canrif. Cafwyd trafod a chynadledda brwd ar y mater hwn nes i'r eglwysi yn y Gorllewin gytuno ar drefn gyffredin. Ond hyd heddiw mae'r modd y mae Eglwys Uniongred y Dwyrain yn pennu dyddiad y Pasg yn parhau'n wahanol. O ran diddordeb, ni fydd ein brodyr a'n chiworydd Uniongred yn dathlu'r Pasg eleni tan y 25 Mai!

Sut felly yr ydym yn pennu dyddiad Sul y Pasg? Yn syml iawn, byddwn yn dathlu'r Pasg ar y Sul sy'n dilyn y lleuad lawn gyntaf wedi cyhydnos y gwanwyn a fydd yn digwydd bob blwyddyn ar naill ai'r 20fed neu'r 21ain Mawrth. Y flwyddyn nesaf bydd y lleuad lawn gyntaf wedi cyhydnos y gwanwyn yn digwydd ar y 15fed o Ebrill ac felly byddwn yn dathlu Gŵyl y Pasg ar yr 20fed o Ebrill.

Ond mewn gwronedd y mae bob Sul yn gyfle inni ddathlu Atgyfodiad Crist. Nid oes angen inni ddisgwyl am flwyddyn gron i droi ein golygon i weld y bedd gwag a sylweddoli bod Crist wedi gorchfygu angau. Mae hyn yn destun rhyfeddod a llawenydd inni bob Sul yn ddi-wahân. Dangoswyd inni drwy'r wyrth fwyaf aruchel yn y Testament Newydd fod bywyd yn drech na marwolaeth; goleuni'n drech na thywyllwch; a llawenydd yn drech na thristwch. Er i gorff yr Iesu gael ei osod mewn bedd, atgyfododd ac agor ffordd bywyd tragwyddol inni. Ie, nid marwolaeth ac angau a gafodd y gair olaf ond y bywyd newydd sydd i'w gael yng Nghrist Iesu. Boed i bawb ohonom felly brofi o bresenoldeb y Crist atgyfodedig yn ein plith ac o lawenydd di-derfyn gwyrth y bedd gwag.

O gorfoleddwn oll yn awr,
Daeth golau'r nef i nos y llawr;
Mae'r Gŵr a ddrylliodd rym y bedd
Yn rhodio'n rhydd ar newydd wedd:
Rhow'n fawl ar gân i'r uchel Dduw,
Mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

W Rhys Nicholas 1914-96

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS EBRILL 2013

Cyhoeddwr y Mis: Mervyn Hughes	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
7 Ebrill 2.30yp	Oedfa Gymun:Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
14 Ebrill 10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
21 Ebrill 2.30yp	Oedfa Bregeth: Beti Griffiths	Gofal y Te: I'w drefnu
28 Ebrill 10.30yb	Oedfa Bregeth: Gweinidog	
5 Mai 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Eirian a Wendy

I'ch Dyddiadur

8 Ebrill: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yng Nghapel y Morfa o 12.00-1.30yp
10 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
10 Ebrill: Rihysal y Gymanfa yng Nghapel y Garn am 7yh
17 Ebrill: Cymdeithas Bethel yng nghwmni Gerald Morgan, Tregaron am 2.30yp
17 Ebrill: Rihysal y Gymanfa yn Seion, Stryd y Popty am 7yh
24 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
24 Ebrill: Rihysal y Gymanfa yn Horeb, Penrhyn-coch am 7yh
30 Ebrill: Cylch Trafod y Beibl: Datguddiad Pennod 3
8 Mai: Rihysal y Gymanfa yng Nghapel y Morfa am 7yh
18 Mai: Cyfarfod y Gymdeithas Emyrau yn Ffestri Bethel
21-22 Mai Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhen-parc, Aberteifi
25 Mai: Oedfa Goffa Mrs Marian Henry Jones ym Methel
9 Mehefin: Pererindod i Benfforddilas

Lloffion

Llongyfarchiadau i Nerys ac Iwan ar enedigaeth merch fach, Mari Fflur, chwaer i Iestyn. Croeso cynnes!

Llongyfarchiadau i Peter a Meryl ar ddod yn ddad-cu a mam-gu unwaith eto. Croeso cynnes i Emily Haf, merch i Nia ac Andrew.

Dymuniadau Gorau i Mrs Mairwen Jones a fydd yn llywyddu yn Oedfa Genhadol y Chwirydd yng Nghyfarfodydd Blynyddol Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhen-parc, Aberteifi.

Banc Bwyd: Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd roddion i'r Banc Bwyd. Mawr fu'r gwerthfawrogiad gan Eglwys y Santes Anne. Byddaf yn mynd â rhoddion eto erbyn y Sulgwyn. Dalier Sylw: Ar hyn o bryd nid oes angen rhagor o basta. Cofiwch, os gwyddoch am unrhyw un sydd yng nghanol trafferthion ac angen rhodd o becyn bwyd dewch i gysylltiad â mi gan fod gennyf dalebau arbennig all hwyluso'r trefniant.

Oedfa yn Nhregerddan ar y 9fed o Fehefin: A oes yna rywrai a fyddai'n barod i arwain yr oedfa yn Nhregerddan ar y 9fed Mehefin? Mae'r dyddiad yn cyd-daro â'r Bererindod i Benfforddilas. Os ydych mewn ffordd i gynorthwyo, dewch i gysylltiad â mi yn ddi-oed.

Rhaglen y Gymanfa Ganu 2013: Mae copïau ar gael o Raglen Cymanfa Ganu 2012/3 gan Ceris; pris £1.35

Bagiau: Mae Merched y Wawr eleni yn casglu bagiau o bob math ac ym mhob cyflwr. Byddant yn cael eu gwerthu er budd Cymorth Cristnogol neu yn cael eu hail-gylchu gan gwmni a fydd yn talu amdanynt. Os oes gennych unrhyw fag nad oes mo'i angen arnoch, dewch i gysylltiad â'r Gweinidog.